

## Dod â data'n fyw –dulliau ystadegol o ymdrin â materion byd-eang Cyfnod Allweddol 3

Trosolwg o'r sesiwn	Amcanion Dysgu	Deilliannau Dysgu	Cwestiynau Allweddol	Gweithgareddau
<p><b>Sesiwn 1: Daearyddiaeth</b> <b>Casglu data yn Ethiopia</b></p> <p>Caiff dysgwyr eu cyflwyno i Ethiopia ac archwilio'r heriau o ran casglu data.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu gwybodaeth ddaearyddol sylfaenol am Ethiopia</li> <li>Edrych ar y broses o gasglu data</li> <li>Deall rhai o'r problemau ac anawsterau o ran casglu data</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd dysgwyr yn defnyddio mapiau, ysgrifennu a lluniau i ddatblygu syniad o sut le yw Ethiopia a dealltwriaeth o weithgareddau ac allbynnau y grwpiau gweithredu cyfunol</li> <li>Bydd dysgwyr yn gallu egluro rhai o'r heriau o ran casglu data drwy ddarllen a thrafod datganiadau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sut le yw Ethiopia?</li> <li>Sut allech chi gael gwybod mwy am y bobl, lleoedd a gweithgareddau yr ydym yn dysgu amdanynt yn y wers hon?</li> <li>Pa anawsterau y gallai ymchwilyr ddod ar eu traws wrth gasglu data?</li> </ul>	<p>I ddechrau: Cwestiynu delweddau Gweithgaredd 1.1: Gwybodaeth gefndir Gweithgaredd 1.2: Cael gwybod mwy a heriau casglu data</p>
<p><b>Sesiwn 2: Mathemateg neu Ddaearyddiaeth</b> <b>Grwpiau gweithredu cyfunol, plotio gwasgariad a maint y sampl</b></p> <p>Mae dysgwyr yn dod i wybod am grwpiau gweithredu cyfunol, plotio eu graffiau gwasgariad eu hunain a dysgu am bwysigrwydd maint y sampl. Byddant hefyd yn ymarfer nodi allanolynnau a dehongli siartiau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Deall beth yw grwpiau gweithredu cyfunol</li> <li>Datblygu sgiliau trin data a chyflwyno</li> <li>Deall cyfyngiadau samplu data yn hytrach na defnyddio'r boblogaeth gyfan</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd dysgwyr yn darllen gwybodaeth o graff gwasgariad</li> <li>Bydd dysgwyr yn cynhyrchu graff gwasgariad</li> <li>Bydd dysgwyr yn adnabod pwysigrwydd maint y sampl wrth ddadansoddi data</li> <li>Bydd dysgwyr yn adnabod pwysigrwydd samplu ar hap</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Beth ydym yn ei olygu wrth weithredu cyfunol?</li> <li>Pa wybodaeth y gellir ei darllen oddi ar graff gwasgariad?</li> <li>Pa effaith y mae defnyddio sampl bach yn unig yn ei chael?</li> <li>Sut y gallwn leihau unrhyw duedd yn y data rydym yn eu dewis?</li> <li>Pa effaith mae perthyn i grŵp gweithredu cyfunol yn ei chael ar y lefelau o fêl a gynhyrchir?</li> </ul>	<p>Gweithgaredd 2.1: Deall grwpiau gweithredu cyfunol Gweithgaredd 2.2: Dehongli graffiau gwasgariad Gweithgaredd 2.3: Cymhariaeth gyda graff enghreifftiol Gweithgaredd 2.4: Plotio graffiau gwasgariad Gweithgaredd 2.5: Cymhariaeth â'r set ddata gyfan</p>
<p><b>Sesiwn 3: Mathemateg</b> <b>Defnyddio grwpiau gweithredu cyfunol er mwyn deall mesurau canolduedd</b></p> <p>Bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i gysyniadau cymedr, canolrif a modd, ac yn deall y gwahaniaethau rhwng y tri mesur. Bydd dysgwyr yn adnabod nodweddion siartiau amllder o ran mesurau canolduedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu dealltwriaeth o wahanol ffyrdd i gyfrifo mesurau canolduedd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd dysgwyr yn cymharu cymedr, canolrif a modd gan ddefnyddio'r un data</li> <li>Bydd dysgwyr yn ystyried sut mae siâp dosraniadau amllder yn effeithio ar eu cyfartaleddau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pa effaith mae defnyddio cymedr, canolrif a modd yn ei chael ar ganlyniadau?</li> <li>Pa effaith mae cynnwys gwerthoedd ychwanegol yn ei chael ar y cymedr, canolrif a modd?</li> <li>Pa fesur canolduedd yw'r gorau i'w ddefnyddio?</li> </ul>	<p>I Ddechrau: Ar beth y dylem edrych? Gweithgaredd 3.1: Cyfrifo cymedr, modd a chanolrif Gweithgaredd 3.2: Llunio diagramau amllder wedi'u grwpio Gweithgaredd 3.3: Cyfrifo cymedr, canolrif a modd o ddiagram amllder wedi'u grwpio Gweithgaredd 3.4: Beth all canoldueddiadau ddweud wrthym?</p>



<p><b>Sesiwn 4: Mathemateg</b> <b>Cyfoeth menywod mewn grwpiau gweithredu cyfunol</b> Bydd dysgwyr yn archwilio cyfoeth y menywod sy'n perthyn i grwpiau gweithredu cyfunol a chyfoeth menywod nad ydynt yn perthyn i grwpiau gan ddefnyddio siartiau cylch. Bydd dysgwyr yn ailadrodd y gymhariaeth hon gan ddefnyddio siartiau bar.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu sgiliau trin data a chyflwyno</li> <li>Deall rhai o'r anawsterau o gasglu data a samplu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd dysgwyr yn llunio a dehongli siartiau cylch</li> <li>Bydd dysgwyr yn cymharu cyfrannau a gynrychiolir mewn siartiau cylch</li> <li>Bydd dysgwyr yn cymharu samplau a chyfrannau'r data</li> <li>Bydd dysgwyr yn llunio, dehongli a chymharu siartiau bar</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Beth mae siart cylch yn ei gynrychioli?</li> <li>Pa effaith y mae maint y sampl yn ei chael ar ganlyniadau?</li> <li>Sut mae lefelau addysg a chyfoeth menywod mewn grwpiau gweithredu cyfunol yn cymharu â'r rhai nad ydynt mewn grwpiau?</li> <li>Beth yw manteision defnyddio siart bar?</li> </ul>	<p>I Ddechrau: Cywir neu anghywir? Gweithgaredd 4.1: Lluniwch siart cylch (adolygiad o CA2) Gweithgaredd 4.2: Siart cylch neu siart bar? Gweithgaredd 4.3: Llunio a chymharu siartiau cylch a bar</p>
<p><b>Sesiwn 5: Mathemateg neu Ddaeryddiaeth</b> <b>Oedran a blynyddoedd o brofiad menywod mewn grwpiau gweithredu cyfunol</b> Bydd dysgwyr yn plotio data gan ddefnyddio gwahanol fathau o siartiau i ddysgu pa siartiau sy'n well ar gyfer cynrychioli pa fathau o ddata. Byddant hefyd yn ymarfer dehongli siartiau a datblygu eu gwybodaeth o'r menywod mewn grwpiau gweithredu cyfunol o'u cymharu â'r rhai nad ydynt mewn grwpiau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu sgiliau trin data a chyflwyno</li> <li>Deall bod gwahanol dechnegau cyflwyno yn gallu newid y ffordd y caiff data ei amgyffred</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd dysgwyr yn cynhyrchu graff bar, graff bar cymharol, bar canran a/neu siart cylch</li> <li>Bydd dysgwyr yn cymharu setiau data a gynrychiolir ar ffurf graffiau bar a siartiau cylch</li> <li>Bydd dysgwyr yn penderfynu pa dechneg cyflwyno sydd orau ar gyfer y data hwn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ai siart cylch, graff bar neu graff bar cymharol sydd orau i gyflwyno'r data hwn?</li> <li>Sut mae oedran a blynyddoedd o brofiad y menywod mewn grwpiau gweithredu cyfunol yn cymharu â'r rhai nad ydynt mewn grwpiau?</li> </ul>	<p>Gweithgaredd 5.1: Dulliau o arddangos data Gweithgaredd 5.2: Pa dechneg cyflwyno data? Sesiwn Lawr: Dewis technegau cyflwyno data ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd</p>
<p><b>Sesiwn 6: Ddaeryddiaeth</b> <b>A oedd menywod yn well eu byd o ganlyniad i grwpiau gweithredu cyfunol?</b> Bydd dysgwyr yn defnyddio siartiau ac astudiaethau achos i werthuso'r effaith ar rymuso menywod o fod yn rhan o grŵp gweithredu cyfunol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd dysgwyr yn defnyddio data ac astudiaethau achos i archwilio effaith y grwpiau gweithredu cyfunol</li> <li>Bydd dysgwyr yn defnyddio astudiaethau achos a data fel tystiolaeth ac enghreifftiau yn eu hysgrifennu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd dysgwyr yn defnyddio data i ymchwilio i effaith y gweithredu cyfunol</li> <li>Bydd dysgwyr yn defnyddio astudiaethau achos a data fel tystiolaeth ac enghreifftiau yn eu hysgrifennu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>I ba raddau mae gweithredu cyfunol yn effeithio ar rymuso menywod?</li> </ul>	<p>I Ddechrau: Beth sydd angen i chi ei wybod? Gweithgaredd 6.1: Effaith y grwpiau gweithredu cyfunol ar rymuso menywod Gweithgaredd 6.2: Dehongli siartiau Gweithgaredd 6.3: Defnyddio astudiaethau achos Gweithgaredd 6.4: Ysgrifennu ymateb</p>